

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Addysg (Cymru)

Gorffennaf 2013

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



**Y Gwasanaeth
Ymchwil**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1718
Rhif dogfen:13/055

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Crynodeb o Fil

Bil Addysg (Cymru)

Gorffennaf 2013

Michael Dauncey ac Alys Thomas

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Gwasanaeth
Ymchwil

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cefndir	2
2.1. Y gweithlu addysg.....	3
2.1.1. Ffioedd cofrestru.....	3
2.2. Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo Ysgolion Annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (AAA).....	4
2.3. Y cyfrifoldeb dros asesu'r angen am addysg arbenigol ôl-16 i ddysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anabledau a darparu'r addysg honno.....	4
2.4. Dyddiadau Tymhorau Ysgolion.....	5
2.5. Penodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a phenodi Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru.....	6
3. Y Bil	7
3.1. Y gweithlu addysg (Rhan 2 o'r Bil, Adrannau 2-41).....	7
3.1.1. Y sail resymegol.....	7
3.1.2. Pwy fydd yn cael ei gofrestru.....	8
3.1.3. Y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol.....	8
3.1.4. Rôl arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg.....	9
3.1.5. Ffioedd Cofrestru.....	11
3.1.6. Aelodaeth o Gyngor y Gweithlu Addysg.....	11
3.2. Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (Rhan 3 o'r Bil, Adrannau 42-43).....	11
3.3. Y cyfrifoldeb dros asesu'r angen am addysg arbenigol ôl-16 i ddysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anabledau a darparu'r addysg honno (Rhan 3 o'r Bil, Adrannau 44-48).....	13
3.3.1. Y sefyllfa bresennol.....	13
3.3.2. Yr hyn a gynigir yn y Bil.....	14
3.3.3. Adolygiadau polisi blaenorol.....	15
3.3.4. Y problemau tybiedig gyda'r trefniadau presennol.....	16
3.3.5. Sut y bwriedir i'r Bil wella'r broses.....	17
3.4. Dyddiadau Tymhorau Ysgolion (Rhan 4 o'r Bil, Adran 49).....	18
3.5. Penodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a phenodi Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru (Rhan 5 o'r Bil, Adran 50).....	19
4. Is-ddeddfwriaeth	20
5. Ymateb	21

Bil Addysg (Cymru)

1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 1 Gorffennaf 2013

Yr Aelod sy'n gyfrifol: Huw Lewis AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar Gyfnod 1 y Bil: Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Y terfyn amser ar gyfer adrodd ar Gyfnod 1: 22 Tachwedd 2013

Mae pum prif ddiben i'r Bil, sef:

- ymestyn y gofyniad cofrestru a'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer ymarferwyr addysg i gynnwys nid yn unig athrawon ond y gweithlu addysg ehangach;
- diwygio a symleiddio'r broses o gofrestru a chymeradwyo derbyn dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i ysgolion annibynnol;
- gwella'r dull o asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ôl-16, i sicrhau gwell trefniadau pontio rhwng ysgolion ac addysg bellach a system lai cymhleth a biwrocraidd;
- newid y ffordd y pennir dyddiadau tymhorau ysgolion er mwyn cysoni'r rhain ledled Cymru;
- diwygio'r broses ar gyfer penodi Prif Arolygydd ac Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i Estyn.

2. Cefndir

Yn ei **Ddatganiad Blynyddol ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol** ar 17 Gorffennaf 2012, dywedodd y Prif Weinidog y byddai *Bil Addysg (Cymru)* yn cael ei lunio ac y byddai'n cynnwys

gofynion i gofrestru'r gweithlu addysg, diwygio'r fframwaith statudol ar gyfer plant a phobl ifanc a chanddynt anghenion addysgol arbennig, a chofrestru plant o oedran ysgol gorfodol sy'n cael eu haddysgu gartref. Caiff sail y darpariaethau yn y Bil hwn eu llywio gan ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y gofynion i gofrestru'r gweithlu addysg, yr ymgynghoriad sy'n amlinellu'r cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig a'r ymgynghoriad ar ddarpariaeth addysgol gan addysgwyr yn y cartref.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn dwyn y teitl **'Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig'**, gan Lywodraeth Cymru rhwng 26 Gorffennaf a 19 Hydref 2012. Roedd hwn yn cynnig ystod o ddigwyddiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys rhoi'r cysyniad o ADY ar sylfaen statudol a disodli datganiadau AAA â Chynlluniau Datblygu Unigol integredig newydd. Amlinellodd hefyd y cynigion yn ymwneud â darparu addysg ôl-16 i ddysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anabledau.

Yn dilyn hynny, mewn **datganiad** ar 26 Medi 2012 cyhoeddodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, **na fyddai darpariaethau AAA yn cael eu cynnwys ym *Mil Addysg (Cymru)* ac y byddai'r rhain yn cael eu datblygu mewn deddfwriaeth ar wahân yn ystod y Cynulliad hwn.** Fodd bynnag, caiff y cynigion penodol yn ymwneud ag addysg ôl-16 eu cynnwys yn y Bil hwn. Hyd yma, ni chafwyd cyhoeddiad arall ynghylch pa bryd y caiff y ddeddfwriaeth ehangach ar y cynigion ar gyfer ADY ei chreu.

Pwnc arall y dywedodd y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2012 y byddai'n cael ei gynnwys yn y Bil yw **cofrestru plant a addysgir gartref, ond nid yw hwn wedi'i gynnwys ynddo ychwaith.** Cyhoeddwyd hyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd mewn **datganiad** ar 21 Rhagfyr 2012 pan ddywedodd y byddai'r cynigion i ddeddfu ar hyn yn cael eu gohirio gan fod rhagor o ystyriaeth yn cael ei rhoi iddynt. Dywedodd y Gweinidog yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 3 Medi a 23 Tachwedd 2012, ei fod wedi gofyn i'w swyddogion gynnal dadansoddiad trylwyr o'r ymatebion oherwydd bod nifer fawr (dros 550) wedi dod i law.

O'r hyn a nodwyd yn natganiad y Prif Weinidog ym mis Gorffennaf 2012, dim ond cofrestru'r gweithlu a'r elfen ôl-16 o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sydd yn y Bil mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'r mater cysylltiedig o dderbyn disgyblion ag AAA i ysgolion annibynnol a chysoni tymhorau ysgol, sydd ill dau wedi bod yn destun ymgynghoriad, wedi cael eu hychwanegu at gynnwys arfaethedig y Bil (yn ogystal â'r mater gweithdrefnol yn ymwneud â phenodiadau i Estyn).

2.1. Y gweithlu addysg

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal dau ymgynghoriad ar ei chynlluniau i ddiwygio'r drefn gofrestru ar gyfer athrawon a'r gweithlu ehangach. Yn wreiddiol ymgynghorwyd ar y '[Cynigion i ddiwygio'r gofynion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru](#)' rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Mawrth 2012. Amlinellodd y ddogfen hon gynigion ar gyfer dyfodol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a cheisio barn ar y cynigion i gynnwys ymarferwyr eraill sy'n gweithio ym maes addysg yn y gofyniad i gofrestru.

Ymatebodd 94 i'r ymgynghoriad, ac yn y [crynodeb o'r ymatebion](#) a luniwyd gan Lywodraeth Cymru dywedwyd bod 58 y cant yn cytuno y dylid ymestyn y trefniadau cofrestru i'r gweithlu ehangach a bod 3 y cant yn anghytuno. Fodd bynnag, dywedwyd nad oedd 29 y cant yn sicr o'r cwestiwn neu nad oeddent wedi rhoi ateb pendant.

Mewn ail [ymgyngoriad](#) a gynhaliwyd rhwng 10 Medi a 19 Hydref 2012 rhoddwyd rhagor o fanylion ynghylch swyddogaethau a gweithrediadau corff cofrestru. Yn y [crynodeb o'r ymatebion](#) a luniwyd gan Lywodraeth Cymru nodwyd bod 77 y cant o'r 47 o ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol mai'r grwpiau a oedd wedi'u pennu oedd y rhai iawn, at ei gilydd, ac nid oedd 2 y cant yn credu bod angen ymestyn y gofyniad i gofrestru y tu hwnt i athrawon. Roedd 21 y cant naill ai'n ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

2.1.1. Ffioedd cofrestru

Gofynnodd yr ymgynghoriad cychwynnol a ddylid cael ffi safonol ar gyfer cofrestru wedi'i thalu gan bawb sy'n cofrestru (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd ar gyfer athrawon sy'n cofrestru gyda CyngACC) ynteu a ddylid pennu ffioedd gwahaniaethol. O blith yr ymatebwyr, **roedd 53 y cant o blaid ffioedd gwahaniaethol**, roedd 12 y cant o blaid ffi safonol a 36 y cant yn ansicr o'r cwestiwn neu heb roi ateb pendant.

Yn dilyn hynny, gofynnodd yr ail ymgynghoriad am farn ynghylch ffioedd gwahanol yn seiliedig ar y categorïau yr oedd ymarferwyr yn cofrestru ar eu cyfer. O blith 47 o ymatebwyr, dim ond 28 y cant a oedd yn cytuno bod y ffioedd dangosol a gyflwynwyd yn cynrychioli gwahaniaeth teg rhwng y categorïau, a mynegodd 57 bryderon ynghylch lefel y ffi wahaniaethol neu ni roesant ateb pendant.

O ganlyniad, **mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ffi gofrestru amrywiadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog a chyfraniadau pensiwn.** Byddai hyn yn cyflwyno graddfa symudol ar gyfer y ffi sy'n daladwy rhwng y rhai ar yr incwm isaf a'r rhai ar yr incwm mwyaf. Penderfynir ar yr **union drefniadau ar gyfer pennu ffioedd cofrestru drwy bwerau gwneud rheoliadau** a roddir i Weinidogion Cymru yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi ystyried yr amrywiol sylwadau mewn perthynas â ffioedd cofrestru ac wedi dweud y byddai ymgynghoriad arall yn cael ei gynnal ar ddechrau 2014, os daw'r Bil yn ddeddf.

2.2. Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo Ysgolion Annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (AAA)

Roedd y cynigion hyn yn destun [ymgynghoriad](#) gan Lywodraeth Cymru rhwng 20 Medi a 1 Tachwedd 2012. Cyhoeddwyd [crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013.

Yn y crynodeb hwn nodwyd bod **naw ymateb i'r ymgynghoriad, gyda phump ohonynt yn cytuno y dylid diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996,** a fyddai'n dileu un o ddwy broses gofrestru sy'n caniatáu i ysgolion annibynnol dderbyn disgyblion ag AAA. Roedd un ymatebydd (dienw) yn anghytuno â'r cynnig hwn a dywedodd y tri arall nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

2.3. Y cyfrifoldeb dros asesu'r angen am addysg arbenigol ôl-16 i ddysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anabledau a darparu'r addysg honno

Fel y nodir uchod, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion hyn fel rhan o'r ymarfer ehangach mewn perthynas â sefydlu'r cysyniad ADY mewn deddfwriaeth a diwygio fframwaith asesu ar gyfer AAA. Pennod 10 oedd y rhan berthnasol o'r ddogfen ymgynghori **'Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig'**, a dywedodd:

Rydym yn cynnig y dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am asesu'r angen am ddarpariaeth addysg bellach arbenigol, gan gynnwys llety preswyl, ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu ac am sicrhau'r ddarpariaeth honno a'i hariannu. Caiff arian presennol ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i'r Grant Cynnal Refeniw i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Cafwyd 206 o ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys un cwestiwn penodol ynghylch a ddylai awdurdodau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros leoliadau addysg arbenigol ôl-16.

Cyhoeddwyd **[crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad](#)** ar y cynigion ar gyfer addysg ôl-16 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013. Noda'r crynodeb hwn fod **45 y cant yn cytuno mewn egwyddor â'r newid hwn, bod 10 y cant yn anghytuno, a 45 y cant nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.**

Cyllid oedd y pryder pennaf a sut y byddai hyn yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol er mwyn ariannu'r cyfrifoldebau ychwanegol a fyddai'n cael eu rhoi iddynt. Codwyd pryderon hefyd ynghylch cynllunio'r cyfnod pontio a gwneud penderfyniadau amserol, a nodwyd yn y crynodeb bod trefnu bod y cyfrifoldeb dros asesu angen, sicrhau'r ddarpariaeth arbenigol a'i hariannu wedi'u lleoli mewn un man yn bwysig i randdeiliaid.

2.4. Dyddiadau Tymhorau Ysgolion

Cynhaliwyd **[ymgynghoriad](#)** rhwng 3 Medi a 26 Tachwedd 2012 ar y cynigion i gysoni dyddiadau tymhorau ysgolion. Daeth 55 o ymatebion i law.

O ran yr ymateb i'r hyn gellid dadlau oedd y cwestiwn pwysicaf, **sef a ddylai Llywodraeth Cymru gael pŵer dewisol i ymyrryd** os na fydd awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynhelir ac ysgolion sefydledig yn llwyddo i gytuno ar ddyddiadau tymhorau ysgolion cyffredin, dywed Llywodraeth Cymru fod cefnogaeth gyffredinol i hyn. Dengys y crynodeb o'r ymatebion a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, **o blith y 45 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, fod 28 yn cytuno, 13 yn anghytuno a 4 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.**

Roedd Estyn yn gefnogol i'r cynnig hwn, gan ddweud y 'dylai'r Gweinidog fod â'r hawl i ymyrryd os bydd awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion yn methu â chytuno'.

Roedd rhai pryderon ynghylch y goblygiadau i ysgolion ffydd mewn perthynas â'u dewisiadau ynghylch pryd yr oeddent yn pennu cyfnod gwyliau'r Pasg. Mae hyn oherwydd bod ysgolion ffydd yn dueddol o ffafrio cynnwys yr Wythnos Sanctaidd hyd ddydd Iau Cablyd (y diwrnod cyn dydd Gwener y Groglith) yn nhymor yr ysgol a chael eu cyfnod gwyliau wedi hynny, rhywbeth na fyddai'n cael ei warantu gan fod Llywodraeth Cymru yn ffafrio tymhorau o'r un hyd.

Y cwestiwn lle roedd y gwahaniaeth barn mwyaf ymysg yr ymatebwyr oedd a ddylai Llywodraeth Cymru, hyd yn oed ar ôl i'r cyrff cyfrifol gytuno ar ddyddiadau tymhorau ysgol, gael y pŵer i'w cyfarwyddo i bennu dyddiadau amgen neu ganiatau rhywfaint o amrywiaeth rhyngddynt yn seiliedig ar ffactorau lleol.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio'n benodol at hyn ond roedd mwy o ymatebwyr yn anghytuno â hyn nag a oedd yn cytuno. O blith y 43 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 17 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 20 o ymatebwyr yn anghytuno a 6 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Dywed Llywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol ei bod wedi rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater hwn yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad. **Daeth i'r casgliad, er gwaethaf y pryderon ac anghytundeb barn, fod manteision y cynigion yn drech na'r anfanteision.**

2.5. Penodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a phenodi Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyffredinol ynghylch y newid hwn sy'n dechnegol ac yn weithdrefnol o ran ei natur. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ac Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor (sydd hefyd yn Ddirprwy Brif Weinidog) ill dau wedi cytuno i'r cynigion. Dywed Llywodraeth Cymru ei bod hefyd wedi ymgynghori â Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi sydd hefyd yn fodlon ar y cynigion.

3. Y Bil

Mae pum rhan i'r Bil.

- Mae **Rhan 1** (Adran 1) yn rhoi **trosolwg** o'r darpariaethau sydd yn y Bil;
- Mae **Rhan 2** (Adrannau 2-41) yn ymwneud â (chofrestru a rheoleiddio) y **Gweithlu Addysg**;
- Mae **Rhan 3** (Adrannau 42-48) yn ymdrin â dwy elfen yn ymwneud â **phersonau ag anawsterau dysgu**;
- Mae **Rhan 4** yn dwyn y teitl **Darpariaeth Amrywiol** ac mae'n cwmpasu tymhorau ysgol a phenodiadau i Estyn; ac
- Mae **Rhan 5** yn gwneud **darpariaeth gyffredinol** mewn perthynas â'r Bil.

3.1. *Y gweithlu addysg (Rhan 2 o'r Bil, Adrannau 2-41)*

Ar hyn o bryd, o blith y gweithlu addysg yng Nghymru, dim ond athrawon sy'n gorfod cofrestru gyda chorff proffesiynol er mwyn ymarfer. Gwneir hyn drwy Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a dim ond i athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru y mae'n berthnasol.

Mae'r Bil yn cynnig fframwaith er mwyn ei gwneud yn ofynnol i sectorau eraill o'r gweithlu addysg ehangach gofrestru.

3.1.1. *Y sail resymegol*

Dywed Llywodraeth Cymru fod y Bil yn cydnabod y bod gwahanol sectorau o weithwyr yn y byd addysg yn cydweithio'n llawer agosach yn awr. Cred y byddai'r trefniadau newydd yn cyd-fynd yn well ag arferion sefydledig mewn nifer o ddiwydiannau, lle mae ymarferwyr yn cofrestru gyda chorff sy'n pennu ac yn cynnal safonau proffesiynol.

Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu cyd-destun y newid sylweddol a welwyd yn y gweithlu addysg yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Noda fod y cydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 i **ddarparu opsiynau ehangach i ddysgwyr** a diwygiadau fel y **Cyfnod Sylfaen a'r Llwybrau Dysgu 14-19**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr, gan gynnwys staff cymorth, gydweithio, fel ffactorau allweddol.

O ganlyniad, cred Llywodraeth Cymru fod **cyfyngu cwmpas a swyddogaethau corff cofrestru proffesiynol ym maes addysg (sef CyngACC ar hyn o bryd) i athrawon mewn ysgolion a gynhelir**, yn unol â'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol, **yn ymddangos yn 'anghyson'**. Dywed Llywodraeth Cymru hefyd fod hyn yn 'tanseilio'r rhan hanfodol y mae pob ymarferwr addysg yn ei chwarae i ddarparu addysg i ddysgwyr a chodi safonau ymhlith y gweithlu addysg

ehangach'.¹ Dywed hefyd nad yw cael gwahanol ofynion a threfniadau rheoleiddio ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd eu bod oll yn arddel safonau uchel cyffelyb o ran ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol.

3.1.2. Pwy fydd yn cael ei gofrestru

Amlinella'r Bil y fframwaith ar gyfer corff cofrestru newydd dan enw newydd ynghyd â'i gylch gwaith. Gwna hyn drwy newid enw'r corff cofrestru presennol i **Cyngor y Gweithlu Addysg** (gan ddisodli CyngACC) ac ymestyn y gofynion cofrestru, cymwysterau a hyfforddiant i'r gweithlu addysg ehangach.

I ddechrau, caiff y rhwymedigaeth i gofrestru ei hymestyn y tu hwnt i athrawon mewn ysgolion a gynhelir i gynnwys:

- Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- Athrawon a gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach

Yn y dyfodol, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i **ymestyn y rhwymedigaeth ymhellach** (gan ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir gan y Bil) i gynnwys:

- Tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith a staff cymorth dysgu; a
- Gweithwyr ieuentid.²

Mae **38,000 o athrawon** yn gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac mae'n ofynnol iddynt gofrestru â CyngACC. Mae **21,300 o staff cymorth mewn ysgolion** ac **8,810 o staff addysgu** addysg bellach (cyfwerth ag amser llawn)³ nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd ond y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru o dan y trefniadau newydd a amlinellir yn y Bil.

3.1.3. Y sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol

Mae *Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998* (Deddf 1998) yn gwneud darpariaeth ar gyfer system gofrestru i athrawon wedi'i gweinyddu gan CyngACC. Amlinella Deddf 1998 brif nodau CyngACC, sef cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon, er budd y cyhoedd. Mae Deddf 1998 hefyd yn cynnwys darpariaeth am gyfansoddiad, aelodaeth, trefniadau staffio, llywodraethu a chyllid CyngACC.

¹ *Bil Addysg (Cymru)* - [Memorandwm Esboniadol](#), Gorffennaf 2013, t8

² Caiff y categorïau hyn eu diffinio ar dudalennau 8 a 10 o'r Memorandwm Esboniadol

³ Ffigurau 2010/11 a ddyfynnir yn y Memorandwm Esboniadol, t8

Yn ogystal, ceir pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ynghylch ffioedd cofrestru a rhoi awdurdod i gyflogwyr athrawon ddi-dynnu neu drefnu i ddi-dynnu o gyflogau unrhyw ffi sy'n daladwy ac mae hyn yn rhan o gylch gwaith CyngACC. **Ar hyn o bryd, mae rhwymedigaeth ar athrawon sydd wedi cofrestru gyda CyngACC i dalu ffi flynyddol o £45 ond mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal o £33 o'r swm hwn i athrawon.**

3.1.4. Rôl arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i'r Cyngor y Gweithlu Addysg newydd fod yn bartner allweddol o ran cefnogi'r agenda gwella a helpu i godi safonau. Mae'n bwriadu pennu'r ddau nod canlynol ar ei gyfer:

- Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru;
- Cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymysg athrawon ac eraill sy'n rhan o'r gweithlu addysg sy'n cefnogi dysgu ac addysgu.

Ceir crynodeb o **brif swyddogaethau arfaethedig Cyngor y Gweithlu Addysg**, sydd i'w gweld ar dudalennau 9-16 o'r Memorandwm Esboniadol, isod.

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cymryd cyfrifoldeb dros **ddarparu cyngor a hyrwyddo gyrfaoedd** ar gyfer y gweithlu addysg cyfan. Cyn hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi dibynnu ar gontractau gyda sefydliadau perthnasol yn Lloegr i hyrwyddo addysgu a'r bwriad nawr yw ymgymryd â'r gwaith hwn ar sail Cymru yn unig.

Bydd **trefniadau cofrestru'r Cyngor ar gyfer aelodau o'r gweithlu addysg** yn cynnwys enw'r person, manylion cyswllt, cyflogaeth, cymwysterau a datblygiad proffesiynol. Bydd gan yr unigolyn a darpar gyflogwyr fynediad i'r wybodaeth hon ond dim ond gwirio a fydd rhywun wedi'i gofrestru ai peidio y bydd modd i'r cyhoedd ei wneud.

Dim ond person a fydd wedi'i gofrestru i wneud gwaith penodol a fydd yn gallu ymgymryd â'r gwaith hwnnw. **Rhoddir categori i unigolion a fydd yn cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg** a dim ond os byddant wedi cwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod sefydlu sy'n ofynnol neu os byddant yn bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru dros dro; os nad ydynt yn destun gwaharddiad fel gorchymyn disgyblu neu waharddiad o swydd; a bod Cyngor y Gweithlu Addysg yn fodlon ynghylch eu haddasrwydd i gofrestru yn y categori hwnnw y byddant yn gymwys.

Bydd y categorïau fel a ganlyn:

- Athrawon ysgol;
- Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- Athrawon addysg bellach;
- Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach.

Bydd gan Lywodraeth Cymru bwerau gwneud rheoliadau i newid y categorïau hyn, er enghraifft mewn perthynas â'r ddau gategori y mae'n awyddus i'w hychwanegu yn y dyfodol (tiwtoriaid a staff cymorth Dysgu Seiliedig ar Waith, a gweithwyr ieuenctid).

Disgrifir bod y trefniadau sefydlu ac arfarnu ar wahanol gamau datblygu ar gyfer pob un o'r categorïau, ond eu bod wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer athrawon. Mae'n rhaid i Athrawon Newydd Gymhwysu gwblhau cyfnod sefydlu arall cyn iddynt gael Statws Athro Cymwysedig, sydd fel arfer yn cynnwys blwyddyn ysgol lawn neu dri thymor ysgol. Mae sefydlu yn cynnwys rhaglen datblygiad proffesiynol, monitro a chymorth yn seiliedig ar flaenoriaethau craidd addysgu a deilliannau i ddysgwyr. Caiff Athrawon Newydd Gymhwysu eu cefnogi gan fentor hefyd drwy gydol eu cyfnod sefydlu a'u hasesu yn erbyn Safonau Athrawon Wrth Eu Gwaith.

Yn ogystal, mae athrawon yn destun proses rheoli perfformiad barhaus fel rhan o'r cynllun datblygu ysgol ac mae Llywodraeth Cymru yn credu bod systemau sefydlu ac arfarnu sydd wedi'u cynllunio'n dda yn hanfodol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch sefydlu ac arfarnu ac i roi trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer gwahanol gategoriâu.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn gweithredu Cod Ymddygiad ac Ymarfer i athrawon cofrestredig. Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi Cod ar gyfer y gweithlu addysg ehangach. Bydd modd i'r Cod hwn bennu safonau gwahanol ar gyfer y gwahanol gategoriâu.

Ar hyn o bryd CyngACC sy'n cyflawni swyddogaethau disgyblu ac mae'n ofynnol iddo ymchwilio i'r mathau canlynol o achosion a gwrando'r achosion hyn:

- Ymddygiad proffesiynol annerbyniol;
- Anghymhwysedd proffesiynol difrifol; a
- Os yw athro ar unrhyw adeg wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, neu os yw'n ymddangos felly.

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn ymgymryd â'r swyddogaeth ddisgyblu hon ar gyfer y gweithlu addysg cofrestredig cyfan, sy'n golygu y bydd ystod ehangach o ymarferwyr yn cael ei chwmpasu gan y gweithdrefnau disgyblu arfaethedig hyn. Os bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cael rhywun yn euog gall wneud gorchymyn disgyblu, sy'n gallu amrywio o gerydd i orchymyn gwahardd llawn sy'n gwneud unigolyn yn anghymwys i gofrestru.

Yn ogystal bydd yn ofynnol i Gyngor y Gweithlu Addysg **gadw cofnodion a gwybodaeth** am y bobl y bydd yn eu cofrestru. Bydd yn cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n angenrheidiol ar gyfer ei swyddogaethau a bydd yn ofynnol iddo hefyd roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru at ddibenion ystadegol a dibenion eraill. Yn ogystal, bydd gan Gyngor y Gweithlu Addysg hawl i gael gwybodaeth gan gyflogwyr, er enghraifft os ydynt wedi rhoi'r gorau i gyflogi rhywun ar sail y tri mater disgyblu uchod.

3.1.5. Ffioedd Cofrestru

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn barn ynglŷn â'r ffioedd cofrestru fel rhan o ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd ganddi ar gofrestru'r gweithlu addysg ehangach. Trafodwyd y cefndir yn adran 2.1 a dywed Llywodraeth Cymru fod y sylwadau a ddaeth i law wedi codi rhai materion pwysig ac wedi amlygu'r angen am ymgynghoriad manylach arall ynghylch y ffioedd cofrestru. Fodd bynnag, yn sgil y ffaith nad oedd yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i ffi safonol na ffioedd unigol ar gyfer pob categori, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid seilio hyn ar incwm y rhai sy'n cofrestru.

Mae Atodiad 2 y Memorandwm Esboniadol yn cynnwys canlyniadau'r gwaith modelu y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar y trefniadau posibl ar gyfer ffi gofrestru amrywiadwy sy'n seiliedig ar fandiau cyflog a chyfraniadau pensiwn. O dan drefniant o'r fath, byddai'r rhai ar yr incwm isaf yn talu'r ffi isaf neu ddim ffi o gwbl a byddai'r gyfradd yn cynyddu yn unol â'r bandiau cyflog.

3.1.6. Aelodaeth o Gyngor y Gweithlu Addysg

Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i bennu nifer yr aelodau ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg a bydd yn penodi aelodau iddo. Rhaid i fwyafrif yr aelodau fod yn bersonau cofrestredig, neu fod wedi bod yn bersonau cofrestredig yn ddiweddar. Bydd y Cyngor yn ethol ei gadeirydd ei hun o blith ei aelodau penodedig. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynglŷn â phenodi Prif Swyddog.

3.2. Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig (Rhan 3 o'r Bil, Adrannau 42-43)

Dyma'r cyntaf o ddwy elfen y Bil sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'n ceisio'n benodol diwygio'r ffordd y mae **ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)**. Ei nod yw lleihau dyblygu a chynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am ddarpariaeth AAA mewn ysgolion annibynnol.

Ceir **dwyr broses gofrestru** ar hyn o bryd. Yn gyntaf, mae angen i unrhyw sefydliad sy'n dymuno gweithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 160 o *Ddeddf Addysg 2002* ('Deddf 2002' o hyn ymlaen); ac yn ail rhaid i ysgol annibynnol sy'n dymuno derbyn disgybl â datganiad AAA gael ei chymeradwyo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru o dan adran 247 o *Ddeddf Addysg 1996* ('Deddf 1996' o hyn ymlaen).

Lle nad oes gan ysgolion annibynnol gymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn disgyblion ag AAA, gall awdurdodau lleol hefyd wneud cais i leoli disgybl â datganiad AAA yn yr ysgol honno. Mewn achosion o'r fath, rhaid iddynt wneud cais ar sail achosion unigol fesul disgybl. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 12 o geisiadau y flwyddyn ar gyfartaledd o dan adran 347 o *Ddeddf 1996* am gydsyniad o'r fath. Ar ôl derbyn llythyr gan yr awdurdod lleol ynghyd â chopi o ddatganiad AAA y plentyn, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i Estyn am gyngor ynghylch a yw'r lleoliad yn addas. Mae'r broses hon yn cymryd rhwng chwe ac wyth wythnos ar gyfartaledd.

Rhaid i geisiadau a wneir gan ysgolion annibynnol o dan adran 160 o *Ddeddf 2002* gynnwys gwybodaeth benodedig gan gynnwys a ydynt yn derbyn disgyblion ag AAA p'un a oes ganddynt ddatganiad ai peidio. Y gofyniad hwn yw'r gofyniad y mae Llywodraeth Cymru yn teimlo ei fod yn arbennig o bwysig at ddibenion y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno dileu dyblygu trefniadau cofrestru a chreu un broses. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ddiddymu adran 347 o *Ddeddf 1996* o ran ei pherthnasedd i Gymru a diwygio adran 160 o *Ddeddf 2002*, lle y byddai proses sengl wedyn.

Dywed Llywodraeth Cymru mai manteision hyn fyddai dileu'r broses lafurus a biwrocraidd o wneud ceisiadau unigol fesul disgybl a galluogi awdurdodau lleol i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch ysgolion unigol a oedd eisoes wedi'u cymeradwyo heb fod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru. **Yn ogystal, yn y dyfodol byddai'n ofynnol i bob ysgol annibynnol a fyddai eisiau derbyn dysgwyr â datganiadau AAA i nodi'r prif fath o addysg AAA y maent yn ei darparu.**

Yn ogystal, mae pob ysgol sydd wedi cael cymeradwyaeth gyffredinol i dderbyn disgyblion â datganiadau AAA yn cael ymweliad monitro blynyddol gan Estyn ond nid felly ysgolion sydd ond wedi cael cydsyniad unigol mewn perthynas â disgybl. **Byddai pob ysgol sydd wedi'i chofrestru o dan y broses adran 160 ddiwygiedig yn dod o fewn cwmpas trefniadau monitro Estyn ac yn destun ymweliad monitro blynyddol**, a dywed Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn sicrhau mwy o dryloywder ac yn cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael.

3.3. *Y cyfrifoldeb dros asesu'r angen am addysg arbenigol ôl-16 i ddysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu a/neu anableddau a darparu'r addysg honno (Rhan 3 o'r Bil, Adrannau 44-48)*

Mae'r Bil yn ceisio gwella'r dull o asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr **ôl-16** er mwyn sicrhau gwell proses bontio rhwng ysgolion ac addysg bellach; gwell cyswllt rhwng ysgolion, awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a darparwyr arbenigol; a system lai cymhleth a biwrocraidd.

3.3.1. *Y sefyllfa bresennol*

Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyffredinol o dan *Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000* ('Deddf 2000' o hyn ymlaen) i sicrhau darpariaeth briodol (i'r rhai rhwng 16 a 19 oed) a chyfleusterau rhesymol (i'r rhai dros 19 oed) ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.

Yn benodol, mae adran 140 o Ddeddf 2000 yn rhoi **dyletswydd** ar Lywodraeth Cymru i wneud trefniadau i **bobl ifanc dan 19 oed a chanddynt ddatganiad AAA i gael eu hasesu**, lle y credir eu bod yn **debygol o adael yr ysgol ar ddiwedd eu blwyddyn olaf o addysg orfodol** i fynd ymlaen i addysg ôl-16 neu addysg uwch neu hyfforddiant. Rhaid i'r asesiad hwn gael ei wneud yn ystod blwyddyn olaf addysg orfodol ac mae'n amlinellu anghenion addysgol ac anghenion hyfforddi person yn ogystal â'r ddarpariaeth sydd ei hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd bŵer o dan adran 140 o Ddeddf 2000 i drefnu asesiad o **unrhyw berson o dan 25 oed** lle yr ymddengys fod ganddo anawsterau dysgu neu os yw'n derbyn, neu'n debygol o dderbyn, addysg ôl-16 neu addysg uwch neu hyfforddiant. Mae hyn yn berthnasol **hyd yn oed pan nad oes gan y person hwnnw ddatganiad AAA** a'i nod yw galluogi asesiadau i gael eu gwneud mewn achosion lle y datblygodd anawsterau dysgu yn fuan cyn i'r person adael yr ysgol, neu lle roedd gan y person anawsterau dysgu nad arweiniodd at gyhoeddi datganiad AAA.

Ar hyn o bryd, cynhelir yr asesiadau hyn gan Gyrfa Cymru drwy gontract blynyddol â Llywodraeth Cymru. Mae gan ddysgwyr o dan 16 oed â datganiad AAA yr hawl i fynd ar drywydd proses datrys anghydfod os teimlant nad yw'r datganiad yn adlewyrchu eu hangenion yn gywir neu lle nad yw'r ddarpariaeth sydd ynddo yn cael ei chynnig. Nid yw eu penderfyniad i wneud hyn yn effeithio ar eu hawl i apelio i Dribiwnlys AAA Cymru wedi hynny os na fydd y broses gychwynnol hon yn datrys y gwyn ac eithrio'r rhai mewn lleoliadau addysg bellach prif ffrwd.

3.3.2. Yr hyn a gynigir yn y Bil

Bydd awdurdodau lleol yn cael dyletswydd mewn perthynas â phobl ifanc o dan 19 oed a'r pŵer mewn perthynas â phobl o dan 25 oed (fel yr amlinellir uchod). Bydd Gyrfa Cymru felly yn rhoi'r gorau i gynnal yr asesiadau hyn dan gontract gyda Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y rhain yn sicrhau gwell trefniadau pontio a dilyniant gan fod awdurdodau lleol yn rheoli'r broses asesu a'r ddarpariaeth i ddisgyblion hyd at oedran ysgol gorfodol o dan y Cod Ymarfer AAA ar gyfer Cymru. Felly ystyrir eu bod mewn sefyllfa well i wneud hyn gan y bydd y dysgwyr a'u hanghenion eisoes yn gyfarwydd ac yn hysbys i'r awdurdod lleol. Dywed Llywodraeth Cymru y bydd hyn yn datrys y gwahaniad presennol rhwng penderfyniadau ariannu a rheoli, h.y. rhwng y rhai sy'n sicrhau ac yn trefnu'r ddarpariaeth a'r rhai sy'n asesu anghenion dysgwyr. Nodwyd bod hyn yn anghynaliadwy⁴ ac yn fater hollbwysig y mae angen ei oresgyn.

Bydd yr asesiad yn arwain at adroddiad a fydd yn amlinellu anghenion addysg a hyfforddiant y dysgwr, yr addysg neu'r hyfforddiant ôl-16 sydd eu hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny a'r ddarpariaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni anghenion addysg a hyfforddiant y dysgwr.

Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth lle mae'r adroddiad yn nodi bod angen diwallu anghenion dysgwr drwy ddarparwr addysg bellach arbenigol neu os oes angen llety preswyl ar ddysgwr er mwyn cael addysg.

Ni fydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth lle y bydd adroddiad sy'n deillio o asesiad yn pennu y gall coleg addysg bellach fodloni anghenion addysg a hyfforddiant dysgwr, gan gynnwys lle mae angen cymorth ychwanegol neu arbenigol ar ddysgwr i fodloni'r anghenion hyn. Os yw anghenion dysgwr yn ddigon cymhleth, mae colegau addysg bellach yn cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid ategol neu eithriadol er mwyn diwallu'r anghenion hyn ar hyn o bryd. Byddai'r trefniant hwn yn parhau o dan y Bil.

⁴[Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y trefniadau i ariannu anghenion dysgu ychwanegol ôl-16 mewn ysgolion ac addysg bellach yn y dyfodol](#), Medi 2010 [fel ar 19 Mehefin 2013]

Bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau datrys anghydfod ar gael. Os na fydd y broses datrys anghydfod yn arwain at ganlyniad boddhaol, bydd hawl apelio newydd i Dribiwnlys AAA Cymru (TAAAC). Bydd hyn yn datrys yr anghydbwysedd rhwng yr hawl i apelio i TAAAC sy'n bodoli ar gyfer disgyblion sy'n aros yn yr ysgol y tu hwnt i'r oedran addysg orfodol a diffyg hawl o'r fath i ddisgyblion a asesir o dan adran 140 o Ddeddf 2000 (y rhai sy'n debygol o adael ar ôl addysg orfodol).

3.3.3. Adolygiadau polisi blaenorol

Mae'r angen am newidiadau yn y maes hwn yn dra hysbys, ac mae Llywodraeth Cymru ei hun yn cydnabod hyn. Cyfeiria'r Memorandwm Esboniadol at waith dau Bwyllgor blaenorol y Cynulliad, a amlygodd bryderon ynghylch pontio ac a gyflwynodd achos dros newid sylweddol.

Ym mis Mawrth 2007, cyflwynodd y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau [adroddiad](#) ar ran 3 o'i adolygiad o bolisi AAA, ar bontio Roedd rhai o'r pryderon ynddo yn canolbwyntio ar yr angen am ddull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr a dulliau gwell o rannu gwybodaeth a chydweithredu rhwng asiantaethau. Dywedodd adroddiad y Pwyllgor fod y system yn rhy gymhleth ac nad oedd yn canolbwyntio'n ddigonol ar y dysgwr.

Ystyriodd y **Pwyllgor Menter a Dysgu ddwy ddeiseb yn 2009 yn ymwneud â myfyrwyr ôl-16** a chanddynt anghenion dysgu ychwanegol ac amlygodd hefyd ddiffygion mewn perthynas â'r trefniadau pontio rhwng cyfnodau addysg. Yn ei [adroddiad](#) dilynol, cyfeiriodd at dystiolaeth gref ynghylch yr angen i gynllunio ar gyfer pontio yn gynharach nag sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o achosion.

Yn 2010, canfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol nad oedd modd i'r system bresennol barhau fel yr oedd ac nad oedd gwahanu penderfyniadau cyllido a rheoli yn gynaliadwy. Yn ei [adroddiad](#), argymhellodd y Grŵp y dylai awdurdodau lleol gymryd cyfrifoldeb dros y meysydd hyn. Dywed y Memorandwm Esboniadol 'yn y pen draw roedd neges glir gan y grŵp y gallai'r dysgwr fod ar ei ennill pe byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio'n well'.⁵

⁵Bil Addysg (Cymru) - [Memorandwm Esboniadol](#), Gorffennaf 2013, t26

3.3.4. Y problemau tybiedig gyda'r trefniadau presennol

Disgrifia'r Memorandwm Esboniadol yr arfer presenol mewn perthynas ag asesiadau o dan adran 140 o Ddeddf 2000 ac amlyga ddiffygion sy'n dangos bod angen gwella'r broses. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dadansoddiad o ganlyniadau'r asesiadau a gynhaliwyd gan Gyrfu Cymru yn 2011/12;
- Problemau gyda rôl bresennol Gyrfu Cymru fel cydgysylltydd arweiniol y broses adran 140;
- Y ffaith bod rôl a chyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yn dod i ben ar ôl i fyfyrwyr ardal yr ysgol a mynd i addysg bellach neu addysg uwch neu gyrraedd 19 oed;
- Anghydbwysedd o ran yr hawliau i apelio sydd ar gael i ddisgyblion.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2011/12, cynhaliodd Gyrfu Cymru 1,398 o asesiadau. Arweiniodd 85 o'r rhain at geisiadau unigol i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer colegau arbenigol; defnyddiwyd 166 o'r asesiadau gan golegau addysg bellach fel tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am gyllid eithriadol i wneud darpariaeth sy'n addas i anghenion dysgwyr; ac yn achos y 1,147 sy'n weddill dylai'r darparwr dysgu perthnasol fod wedi diwallu anghenion y dysgwr yn unol â'r asesiad, er ei bod yn bosibl na wnaeth lleiafrif barhau â'u haddysg am ryw reswm.

O blith yr 85 o geisiadau unigol am arian ar gyfer colegau arbenigol, **dim ond 59 y cant a broseswyd mewn pryd** i ddysgwyr a'u rheini gael eu hysbysu am y penderfyniad erbyn diwedd Gorffennaf cyn i'r cwrs ddechrau ym mis Medi. **Dywed Llywodraeth Cymru y gellid priodoli hyn i oedi yn sgil dwy ffactor**; yn gyntaf, **gwybodaeth annigonol yn y cais** er mwyn gwneud penderfyniad a gorfod gofyn am ragor o fanylion (digwyddodd hyn mewn 82 y cant o achosion), ac yn ail, yr **amser a gymerwyd i drafod ag awdurdodau lleol a/neu fyrddau iechyd** pan arweiniodd y cais at ddarpariaeth a ariannwyd ar y cyd (fel y digwyddodd mewn 77 y cant o geisiadau).

Noda'r Memorandwm Esboniadol nifer o ffactorau problematig o ran y ffordd y mae Gyrfu Cymru yn ymgymryd â'r asesiadau, gan gynnwys diffyg gwybodaeth flaenorol am anghenion dysgwyr neu'r ddarpariaeth a wnaethpwyd o dan y Cod Ymarfer AAA i ddiwallu'r anghenion hynny. Yn ogystal, prif rôl Gyrfu Cymru yw darparu cyngor ac arweiniad ar yrfaedd ac mae ei rôl o ran cynhyrchu adroddiadau asesu wedi dibynnu ar gydgysylltu cyngor a barn broffesiynol o ffynonellau eraill. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, **nid yw Gyrfu Cymru felly mewn sefyllfa i gymharu'r opsiynau sydd ar gael mewn modd gwrthrychol er mwyn diwallu anghenion dysgwr.**

O gofio nad oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb dros asesu a diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol pan fyddant yn cyrraedd 19 oed, neu'n gadael ysgolion i fynd i addysg bellach neu addysg uwch, dywed Llywodraeth Cymru fod anfanteision yn gysylltiedig â hyn am y rhesymau canlynol. **Ychydig o gymhelliad sydd i awdurdodau lleol gymryd rhan weithredol yn y broses o asesu anghenion neu bennu'r ddarpariaeth sy'n addas i fodloni'r anghenion hynny.** Nid yw ychwaith yn fanteisiol iddynt gydweithio â cholegau addysg bellach lleol i gynllunio ymlaen ac i ystyried y ffyrdd gorau o fodloni anghenion dysgwyr, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n talu am ddarpariaeth o'r fath.

Er bod gan ddisgyblion sy'n aros yn yr ysgol y tu hwnt i oedran addysg orfodol yr hawl i apelio i TAAAC ynghylch eu datganiad, neu hyd yn oed os nad yw hynny wedi digwydd, **nid oes hawl debyg yn bodoli ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ac sy'n mynd i addysg bellach neu addysg uwch.** Felly, o dan y trefniadau presennol, ymddengys fod gan ddisgyblion sy'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol fwy o hawliau os bydd yn aros yn yr ysgol nag os bydd yn gadael ac yn parhau â'i addysg mewn coleg addysg bellach.

3.3.5. Sut y bwriedir i'r Bil wella'r broses

Mae Llywodraeth Cymru yn rhag-weld y bydd y Bil yn mynd i'r afael â'r problemau a'r gwendidau a amlygwyd yn yr adran uchod. Mae'n credu bod awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i gyflawni'r ddyletswydd a'r pŵer a ddarperir gan adran 140 o Ddeddf 2000 gan y gallant sicrhau cydweithio rhwng timau addysg a gofal cymdeithasol a bydd ganddynt gysylltiadau agosach gyda byrddau iechyd lleol a darparwyr gofal a chymorth lleol eraill. **Byddai'r broblem sylfaenol o gael cyrff sy'n rheoli'r broses asesu sy'n wahanol i'r cyrff sy'n ei hariannu ac yn sicrhau'r ddarpariaeth hefyd yn cael ei datrys.**

Cyfeiria'r Memorandwm Esboniadol at ddiwygiadau ehangach i ddeddfwriaeth mewn perthynas ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ac y bydd y newidiadau yn y Bil hwn yn helpu i 'baratoi'r ffordd' ar gyfer y rhain. Trafodwyd cyd-destun ehangach anghenion addysgu ychwanegol, y mae'r cynigion ôl-16 hyn yn rhan ohonynt, ymhellach yn adran 2.

I grynhoi, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yr elfen hon o'r Bil yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynllunio gwael a chyson o ran y broses bontio, diffyg cydweithio a chydweithredu, yr angen i gynyddu darpariaeth leol a sicrhau gwerth am arian o ran y broses gomisiynu.

3.4. *Dyddiadau Tymhorau Ysgolion (Rhan 4 o'r Bil, Adran 49)*

Ar hyn o bryd, **pennir dyddiadau tymhorau ysgolion gan awdurdodau lleol** ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin, a chan **gyrff llywodraethu** ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig.

Amlyga Llywodraeth Cymru yr **anghyfleustra a'r costau gofal plant i deuluoedd** a all fod â phlant mewn ysgolion lle mae'r tymhorau ysgol yn wahanol neu lle mae rhieni'n gweithio mewn ysgolion lle nad yw dyddiadau'r tymor yn cyd-fynd â dyddiadau tymor ysgol eu plentyn. Yr achosion mwyaf cyffredin yw lle ceir gwahaniaethau mewn dyddiadau tymhorau ar draws ffiniau awdurdodau lleol neu rhwng ysgolion ffydd ac ysgolion o fewn yr un awdurdod lleol, er enghraifft adeg gwylia'r Pasg.

Mae'r Bil yn ceisio cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion (ac felly gwyliau ysgol) ledled Cymru drwy roi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yng Nghymru i gydweithio a chydweithredu o ran pennu dyddiadau tymhorau.

Mae awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu eisoes yn cael eu hannog ei gydweithio wrth bennu dyddiadau tymhorau ysgolion, gan gynnwys drwy her gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ond aflwyddiannus fu hyn ar y cyfan. Felly cred Llywodraeth Cymru fod angen deddfwriaeth er mwyn cysoni tymhorau ysgolion ond bydd y Bil yn parhau i ganiatáu amrywiadau yn achlysurol iawn a lle y gellid cyfiawnhau'r amrywiadau hynny yn gyfan gwbl.

Fodd bynnag, mae'r Bil yn cadw'r sefyllfa lle mae awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu (mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig) yn pennu dyddiadau tymhorau ysgolion a byddant yn parhau i fod yn gyfrifol am ddod i gytundeb. **Yn allweddol, lle nad oes modd dod i gonsensws, bydd gan Weinidogion Cymru bŵer dewisol i gyfarwyddo'r cyrrff cyfrifol i ymyrryd lle bo angen drwy ddweud wrthynt beth ddylai dyddiadau eu tymhorau ysgolion fod.**

Hyd yn oed pan fydd dyddiadau wedi'u cytuno rhwng y cyrrff eu hunain ac nad oes anghydfod i'w ddatrys, **bydd Gweinidogion Cymru yn gallu arfer eu pŵer dewisol os oes ganddynt reswm i gredu bod angen diwygio'r rhain.** Rhoddir yr angen i wneud yn siwr bod y tymhorau mor gyfartal â phosibl o ran hyd yn y Memorandwm Esboniadol fel enghraifft o amgylchiadau o'r fath. Yn ogystal bydd Gweinidogion Cymru yn caniatáu amrywiadau o ran y dyddiadau lle ceir rhesymau da fel digwyddiad o bwys mewn ardal leol, a rhoddir Cwpan Ryder yng Nghasnewydd yn 2010 fel enghraifft.

Mewn gwrthgyferbyniad â hyn mae [Bil Dadreoleiddio Drafft](#) Llywodraeth y DU yn cynnig y dylid **trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb dros bennu dyddiadau tymhorau** mewn ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir yn Lloegr **o'r awdurdod lleol i'r corff llywodraethu**. Byddai corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir o'r fath yn Lloegr wedyn yn gyfrifol am bennu dyddiadau eu tymhorau a'u gwyliau ysgol bob blwyddyn.

3.5. Penodi a diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a phenodi Arolygwyr Ei Mawrhydi ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru (Rhan 5 o'r Bil, Adran 50)

Elfen weithdrefnol yw'r elfen hon o'r Bil ac mae'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir i benodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ogystal ag Arolygwyr Ei Mawrhydi. Swyddi Estyn, arolygiaeth Cymru, yw'r rhain.

Ar hyn o bryd, caiff y personau hyn eu penodi gan Ei Mawrhydi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol sydd yn ei dro yn cael cyngor gan Weinidogion Cymru (y Prif Weinidog yn ymarferol). Byddai'r Bil yn dileu'r angen i'r broses gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol a byddai'r Prif Weinidog yn cynghori Ei Mawrhydi, ar yr amod ei fod/bod yn aelod o'r Cyfrin Gyngor.⁶

Caiff hyn ei roi ar waith drwy ddiddymu adran 19(6) o *Ddeddf Addysg 2005* yn sgil y Bil hwn. Bydd yn cwmpasu materion yn ymwneud â'r Cyfrin Gyngor sydd wedi'u datganoli i Gymru sydd hefyd yn cynnwys diswyddo Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar sail anghymhwystra neu gamymddwyn.

Mae'r newid deddfwriaethol arfaethedig yn dilyn cytundeb ar y mater hwn gan Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor (sydd hefyd yn Ddirprwy Brif Weinidog, sef y Gwir Anrhydeddus Nick Clegg AS) ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ym mis Gorffennaf 2012, yn ogystal â [Datganiad Gweinidogol](#) ar 15 Hydref 2012 gan Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor.

⁶Y [Cyfrin Gyngor](#) yw'r dull ar gyfer dod i gytundeb rhyngadrannol ar yr eitemau hynny o fusnes y llywodraeth sydd, am resymau hanesyddol neu resymau eraill, yn dod i ran gweinidogion fel Cynghorwyr y Cyfrin Gyngor yn hytrach na gweinidogion adrannau.

4. Is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau a roddir i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Rhestr y rhain ym mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ac mae 36 ohonynt i gyd. Mae mwyafrif y rhain (23) yn ymwneud â'r gweithlu addysg, mae naw yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr ôl-16 ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae tri yn ymwneud â thymhorau ysgolion. Pŵer arall yw pŵer cyffredinol sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer newidiadau eraill i ddeddfwriaeth sylfaenol.

O blith y 36 o bwerau dirprwyedig, bydd yn ofynnol i bump o'r rhain gael eu gweithredu o dan y Weithdrefn gadarnhaol.

- Mae Adran 52 yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn i wneud diwygiadau canlyniadol posibl i'r ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth sylfaenol arall.
- Mae Adran 10(6) yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn sy'n newid amodau ar gyfer personau nad ydynt yn gymwys i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i bennu sail ychwanegol ar gyfer anghymwysra.
- Mae Adran 28(4) yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i alluogi gorchymyn gwahardd yn erbyn athro/athrawes yn Lloegr i fod yn berthnasol yng Nghymru hefyd.
- Mae Atodlen 1 3(1) yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn yn nodi nifer yr aelodau ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg (neu isafswm neu uchafswm aelodau o'r fath).
- Mae Atodlen 2 paragraff 2 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, diwygio neu ddileu categori cofrestru neu ddisgrifiadau o'r categori hwnnw. Dyma'r pŵer y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio pe dymunai ymestyn y gofyniad i gofrestru i diwtoriaid dysgu seiliedig ar waith a staff cymorth, yn ogystal â gweithwyr ieuenctid, yn unol â'r bwriad a fynegir yn y Memorandwm Esboniadol.

5. Ymateb

Pan gyflwynodd y Bil yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd **Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau**:

Mae'r Bil hwn yn rhoi cyfle, am y tro cyntaf, i gydnabod yn ffurfiol statws a phroffesiynoldeb yr holl ymarferwyr addysg sy'n gweithio yng Nghymru a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i godi safonau mewn ysgolion a'r canlyniadau ar gyfer pob dysgwr. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon ysgol, gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, athrawon addysg bellach a gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach gofrestru gyda'r corff diwygiedig a ailenydd, cyngor y gweithlu addysg. Bydd hyn yn sefydlu system sengl gydlynol ar gyfer y gweithlu addysg ehangach.

Bydd y cyngor yn cael pwerau yn y Bil hwn i gefnogi'r gweithlu addysg ehangach trwy gyflawni nifer o swyddogaethau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo gyrfaoedd yn y gweithlu addysg, rhoi cyngor ar faterion sy'n cynnwys safonau proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant cychwynnol, ac ymchwilio a chymryd camau mewn perthynas ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol.⁷

Dywedodd hefyd:

Mae'n gyfnod anodd pan fo rhywun yn gadael yr ysgol, a gall fod hyd yn oed yn anoddach ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau dysgu. Trwy gynllunio'r broses bontio'n effeithiol, mae pob dysgwr yn gallu cyflawni ei amcanion yn y tymor hir. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn peidio â bod yn gyfrifol am asesu a diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig ar ôl iddynt adael yr ysgol neu gyrraedd 19 oed. Drwy'r Bil hwn, rwyf am wella'r trefniadau hyn drwy wneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli'r broses asesu a phontio ar gyfer y dysgwyr hyn hyd at 25 oed. Bydd hefyd yn gwneud awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol lle bo angen, i ddiwallu anghenion addysg a hyfforddiant a aseswyd. Bydd y newidiadau arfaethedig yn cynorthwyo i gynllunio'r broses bontio'n well ar gyfer dysgwyr sy'n symud o'r ysgol i addysg bellach, a hwyluso gwell cyswllt rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach a darparwyr arbenigol. Yn ogystal, bydd y Bil hefyd yn cynnwys yr hawl i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Prif amcan y newidiadau hyn yw cyflwyno systemau llai cymhleth a biwrocraidaidd sy'n bodloni ac yn amddiffyn anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed yn well. Yn dilyn ystyriaeth fanwl ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno proses gofrestru sengl ar gyfer ysgolion annibynnol sydd am dderbyn dysgwyr sydd â datganiad o AAA.⁸

⁷ Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2013

⁸ Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2013

Ar ran Ceidwadwyr Cymru, **croesawodd Angela Burns AC y Bil**, gan ddweud bod “llawer i’w ganmol ynddo” ac “mae gennym gydymdeimlad mawr â byrdwn cyffredinol llawer o’r Bil.” Pwysleisiodd yn benodol y gefnogaeth i gofrestru’r gweithlu addysg a’r materion sy’n codi o ran darparu addysg anghenion addysgol arbennig.⁹ Fodd bynnag, gofynnodd pam mae gweithwyr ieuenctid yn cael eu cwmpasu gan y Bil ond nid felly athrawon a gweithwyr cymorth mewn ysgolion annibynnol.¹⁰

Dywedodd **Simon Thomas AC**, ar ran Plaid Cymru:

Rwyf am sôn am gwpwl o bethau sy’n destun pryder a lle rwy’n meddwl bod y Bil fel y mae efallai’n ddiffygiol. Yn gyntaf oll, nid wyf yn ymddiheuro am ddod yn ôl at y ffaith nad yw gweithwyr ysgolion preifat yn rhan o hyn. Mae’n ymddangos i mi fod drws cefn anffodus yn y fan hon i rywun nad ydyw wedi cymhwyso o dan y cyngor newydd i weithio mewn sefydliad addysgol yng Nghymru.¹¹

Gofynnodd hefyd a fyddai’r cyngor arfaethedig yn “ddigon annibynnol i gynnig cyngor i’r Gweinidog ac i’r sector ehangach heb orfod mynd ar ofyn y Gweinidog.”¹²

Aeth Mr Thomas ymlaen i wneud sylwadau ar y pŵer ehangach mewn perthynas â threfniadau tymhorau ysgol:

Rwyf o’r farn bod angen ystyried eto y patrwm gwyliau sydd gennym. Rwy’n meddwl bod angen gwyliau cenedlaethol. Nid wyf eisiau mynd i lawr y llwybr sydd yn cael ei amlinellu heddiw yn Lloegr. Fodd bynnag, mae angen i bob plentyn yng Nghymru i fynd i’r ysgol ar yr un diwrnod a bod ar wyliau ar yr un diwrnod yn fy marn i. Mae eisiau edrych ar batrwm a hyd gwyliau, achos mae tystiolaeth, yn enwedig yn y trosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd, ymysg bechgyn a dros yr haf, bod dirywiad mewn safonau. Mae’n werth ailystyried hynny. Felly, er bod y Gweinidog yn dweud mai eithriad yw’r pwerau y mae’n chwilio amdanynt yn y Bil hwn, buasem ni ym Mhlaid Cymru eisiau cryfhau’r rhan hon o’r Bil er mwyn rhoi’r gallu hwnnw i amrywio wrth i bethau ddatblygu.¹³

⁹ Ibid.

¹⁰ Ibid.

¹¹ Ibid.

¹² Ibid.

¹³ Cofnod y Trafodion, 2 Gorffennaf 2013.

Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud:

O ran patrymau gwyliau ysgol, byddwn yn dadlau gyda llefarydd Plaid Cymru mai'r Bil hwn o reidrwydd yw'r lle gorau i gael y ddadl ynghylch patrwm gwyliau ysgol yng Nghymru. Rydym yn gweld gwyliau ysgol yn dod yn gwbl benagored yn Lloegr, a gallai hynny achosi pob math o gur pen i rieni o ran trefnu gofal plant yn ogystal â gwyliau teuluol blynyddol ac yn y blaen. Yn sicr, nid wyf am fynd ar hyd y trywydd hwnnw.

Pe byddem yn ystyried patrwm gwyliau ysgol ledled Cymru, byddai angen proses ymgynghori briodol ar hynny fel pwnc annibynnol, gan y byddai mor bwysig i rieni a theuluoedd ledled Cymru. Ni fyddwn o reidrwydd yn cael fy narbwylllo—yn sicr nid ar hyn o bryd—y byddai hynt y Bil hwn yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad llawn a phriodol ar hyd a lled y wlad, gyda digon o adborth gan ddigon o bobl i sicrhau bod ewyllys pobl Cymru, os mynnwch chi, yn eglur ynglŷn â newid y flwyddyn ysgol a phatrwm honno.¹⁴

Dywedodd Aled Roberts AC, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru:

y broblem go iawn i mi yw p'un a gynhaliwyd asesiad cost llawn ynglŷn â'r ddeddfwriaeth benodol hon. O ystyried y sefyllfa yn yr Alban, yn ôl a ddeallaf, ar hyn o bryd, ac o ystyried y bydd y Bil hwn yn cael gwared ar reolaeth y Gweinidog dros ffioedd cofrestru, a oes unrhyw arwydd o lefel y ffi cofrestru a delir gan athrawon a gweithwyr eraill yn y gweithlu addysg, a'r costau a fyddai'n deillio o hynny i awdurdodau lleol, oherwydd y ceir cytundebau ar lefel awdurdod lleol yn y rhan fwyaf o achosion o ran talu ffioedd cofrestru proffesiynol?¹⁵

Dywedodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru:

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn croesawu Bil Addysg (Cymru) a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru y prynhawn yma. Mae'r Cyngor wedi dadlau ers cryn amser i reoleiddio dan arweiniad y proffesiwn gael ei ymestyn i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill ym myd addysg ac mae'r Bil yn cymryd camau breision i'r perwyl hwnnw. Byddwn yn astudio'r ddogfen yn fanwl ond rydym yn falch o weld ei bod yn ymddangos i lawer o'n hargymhellion a'n hawgrymiadau gael eu cynnwys.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle gallai fod diffygion yn y Bil yn ein barn ni. Er enghraifft, collwyd cyfle i unioni'r amryfusedd lle caiff athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion preifat ac ysgolion annibynnol eu heithrio rhag y gofyniad i gael eu cofrestru a'u rheoleiddio, a'r camau diogelu a ddarperir drwy'r fath gofrestru.

Mae'n ymddangos hefyd bod annibyniaeth y Cyngor wedi'i ail-gyflunio yn cael ei llesteirio gan nifer o ofynion gan gynnwys cael caniatâd y Gweinidog cyn iddo allu cynnig cyngor i'r Llywodraeth neu unrhyw gorff arall. At hynny, mae'r Bil yn cynnig y caiff Cod Ymddygiad ac Ymarfer y proffesiwn ei hun - a gafodd ei lunio, ei ddyfeisio a'i hyrwyddo'n flaenrol gan GyngACC - ei greu gan y Gweinidog yn y lle cyntaf.¹⁶

¹⁴ Ibid.

¹⁵ Ibid.

¹⁶ [Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, Datganiad ar Fil Aaddysg \(Cymru\), Gorffennaf 2013](#)